



## ADRAN A

1. Rhowch y rhifau -3, -2, -1, 0, 1 yn y cylchoedd. Rhaid i'r rhifau ym mhob llinell adio i 0. Beth yw'r rhif yn y cylch a nodir gan farc cwestiwn?



- a) -3      b) -2      c) -1      ch) 0      d) 1
2. Faint yw 40% o 50% o £60?
- a) £7      b) £8      c) £12      ch) £15      d) £30
3. Faint yw arwynebedd y saeth yn y sgwâr 2 x 2 hwn?



A = canol y sgwâr

- a) 1      b) 1.5      c) 2      ch) 2.5      d) 3

4. Pa un o'r ffracsiynau hyn sydd rhwng  $1/2$  a  $1/3$ ?

- a)  $1/4$       b)  $5/12$       c)  $3/5$       ch)  $1/6$       d)  $2/3$

5. Yn Ysgol Tegryn mae 120 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 8. Mae 80 o'r disgyblion yng nghôr yr ysgol a 30 yn y gerddorfa. Mae 10 disgybl yn y côr ac yn y gerddorfa hefyd. Faint o ddisgyblion Blwyddyn 8 nad ydynt yn y côr na'r gerddorfa?

- a) 0      b) 10      c) 20      ch) 30      d) 40

6. O wybod bod  $231 \times 437 = 100947$ , faint yw  $232 \times 436$ ?

- a) 100742      b) 101152      c) 100947      ch) 100952      d) 100942

7. Rhennir y triongl mawr hafalochrog yn nifer o drionglau bach hafalochrog. Faint yw'r nifer lleiaf o drionglau bach y mae'n rhaid eu lliwio fel bo gan y triongl mawr linell gymesuredd?



- a) 2      b) 3      c) 4      ch) 5      d) 6

8. Sawl teilsen sgwâr, pob un yn mesur 10cm x 10cm, sydd eu hangen i orchuddio petryal 3m wrth 4m?

- a) 12      b) 120      c) 140      ch) 1200      d) 14000



9. Mae maint pob un o'r tair ongl mewn triongl yn rhif sgwâr. Beth yw maint yr ongl leiaf yn y triongl?

- a) 4°      b) 9°      c) 16°      ch) 25°      d) 36°

10. Mae Ben yn chwarae gêm dîs gan ddefnyddio dîs diduedd, chwe wyneb. Os yw'n taflu rhif cysefin neu eilrif mae'n sgorio pwynt. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd yn sgorio pwynt ar ei daflriad nesaf?

- a) 1/6      b) 1/3      c) 1/2      ch) 5/6      d) 1

11. Mae'r lluniau yn dangos y berthynas rhwng más silindr, sffêr a chiwb:



Sawl silindr sy'n gyfwerth â chiwb?

- a) 1      b) 2      c) 3      ch) 4      d) 5

## ADRAN B

1. Mewn cynghrair pêlrwyd mae tîm yn cael 5 pwynt am ennill gêm, 2 bwynt am gêm gyfartal a dim pwynt am golli. Ar ôl chwarae 20 gêm roedd tîm Aber wedi cael 41 pwynt.

Pa gyfuniadau o ganlyniadau oedd yn bosibl? Rhwng eich canlyniadau yn y tabl canlynol:

Ennill	Cyfartal	Colli	Pwyntiau



Faint oedd nifer lleiaf posibl y gemau a oedd Aber wedi eu colli?

Nifer lleiaf posibl y gemau sydd yn y golofn **Colli** yw: \_\_\_\_\_

2.

Mae 4 triongl yn y llun cyntaf.

Sawl triongl sydd yn yr ail lun? Nifer y trionglau = \_\_\_\_\_



Beth yw'r llun nesaf yn y patrwm hwn?

Sawl triongl sydd yn y llun hwn? Nifer y trionglau = \_\_\_\_\_

Ymchwiliwch ymhellach.